Gwarchod a Rheoli Bioamrywiaeth y tu hwnt i 2010

Cymdeithas Ecolegol Prydain ('British Ecological Society' neu 'BES') a Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ('Insititute of Ecology and Environmental Management' neu 'IEEM')

Hydref 2009

Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu'r holl amrywiaeth bywydegol ar ein daear – o ecosystemau i rywogaethau a genynnau. Mae tystiolaeth eglur ar gael bod diflaniad bioamrywiaeth ar hyd a lled y byd yn digwydd yn gynt nawr nag ar unrhyw adeg arall yn ein gorffennol, heblaw am yr adegau hynny lle roedd difodiant yn digwydd ar raddfa sylweddol ar ddiwedd cyfnodau daearegol allweddol. Mae tystiolaeth gynyddol hefyd bod nifer o'r gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau – hynny yw, y systemau sy'n cynnal ein bywydau a'n heconomi ac sy'n deillio o fyd natur – yn ddibynnol ar sicrhau cymunedau iach o blanhigion, anifeiliaid ac organebau eraill sy'n gweithredu fel y dylent wneud. Mae unrhyw ddarogan am anghenion y dyfodol o safbwynt bwyd, dŵr, tir ac ynni yn rhagfynegi y bydd bioamrywiaeth yn dod dan fygythiad cynyddol. Fel y gwelwn o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau niferus sy'n digwydd eleni, yn ystod blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth, mae angen i'r rhai sy'n llunio polisïau ym maes Bioamrywiaeth gael y cyngor gwyddonol, ymarferol a phroffesiynol gorau ynglŷn â chyflwr presennol bioamrywiaeth, y rhesymau am unrhyw newidiadau mewn bioamrywiaeth a chanlyniadau'r newidadau hynny, a hefyd yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn helpu rheoli bioamrywiaeth.

Yn ychwanegol at y pynciau sy'n effeithio'n ddiwahan ar genhedloedd y byd, mae gan y DU gonsyrn arbennig ynghylch ei hamgylchedd ei hun, yr amgylchedd o fewn y tiriogaethau tramor a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y goron. Fel un o'r economïau sydd wedi ei diwydiannu fwyaf ac fel grym gwyddonol allweddol ac oherwydd hefyd ei chysylltiadau hanesyddol gyda gwledydd ar hyd a lled y byd mae'r DU hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at waith ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth ar draws y byd. Mae gan y DU nifer o ymrwymiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i warchod bioamrywiaeth. Drwy lofnodi'r Cytundeb ar Amrywiaeth Bywydegol cytunodd y DU i ymrwymo at leihau cyfradd colledion ymhlith ein bywyd gwyllt. Ac fe gymerodd y DU y cam, gyda'n cefnogaeth ninnau fel sefydliadau, i fynd y tu hwnt i hyn yn yr uwchgynhadledd i arweinwyr yr UE yn Gothenburg yn 2001, gan gytuno ar atal diflaniad bioamrywiaeth erbyn 2010. Ond mae yna gydnabyddiaeth gyffredinol, bellach, na fydd modd cwrdd â'r nod hwn. Rhaid i'r Llywodraeth (ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol), ynghyd â Mudiadau Anllywodraethol, y sector ddiwydiannol a hefyd yr holl gyrff eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd, wneud gwaith gwyddonol penodol er mwyn sicrhau bod unrhyw bolisïau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth yn rhai rhagorol a chadarn.

Datganiad ynghylch ein safbwynt, fel sefydliadau, ynglŷn â'r wyddoniaeth a'r arfer da sy'n sail i reolaeth a chadwraeth bioamrywiaeth

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, rydym fel dau sefydliad yn datgan y canlynol:

- Mae'r bygythiadau sy'n wynebu bioamrywiaeth nawr ac yn y dyfodol mor fawr fel bod angen i wneuthurwyr polisïau roi sylw blaenllaw iddynt: mae gwerth hanfodol bioamrywiaeth yn hynod o uchel ac mae tystiolaeth gref bod ecosystemau cyflawn yn allweddol er mwyn darparu nifer o'r gwasanaethau ecosystem hynny yr ydym fel pobl yn dibynnu arnynt am ein bywoliaeth a'n bywydau.
- Mae'r BES a'r IEEM yn barod i helpu gyda'r dasg o flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwyddoniaeth a gweithgareddau sy'n rhan annatod o warchod a rheoli bioamrywiaeth fel y gallwn: ddeall cyflwr presennol bioamrywiaeth yn well, deall achosion a chanlyniadau ymyrraeth gan ddyn a deall hefyd y ffyrdd y gall bioamrywiaeth gael ei adfer, ei warchod a'i reoli.
- Os am sicrhau bod y gwaith o warchod a rheoli bioamrywiaeth yn broffesiynol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ar wyddor ac ar wybodaeth dda, rhaid datblygu ffyrdd newydd o gydweithio sy'n tynnu sawl disgyblaeth ynghyd. Mae aelodau'n dau sefydliad eisoes yn weithgar mewn meysydd ymchwil ecolegol ac amgylcheddol sy'n hollol berthnasol i feysydd polisi, a maent hefyd yn ymwneud â'r defnydd ymarferol o dystiolaeth. Rydym yn galw am ragor o drafod rhwng gwyddonwyr, gwneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n gweithio i reoli a gwarchod bioamrywiaeth yn ymarferol er mwyn sicrhau bod ymchwil perthnasol yn digwydd ac er mwyn sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn cael eu defnyddio'n well wrth ymarfer gwaith cadwraeth a rheolaeth Mae angen gwneud mwy i ddatblygu rhwydwaith bywiog o ran-ddeiliaid amrywiol, a fyddai'n cynnwys ecolegwyr a rheolwyr amgylcheddol fel un elfen allweddol, er mwyn taclo heriau bioamrywiaeth oddi mewn, a thu hwnt i'r DU.
- Bydd angen datblygu targedau newydd wrth i'r Cytundeb ar Amrywiaeth Bywydegol symud y tu hwnt i 2010. Rhaid i'r targedau, a'r ffordd y cânt eu monitro, fod yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r arferion rheolaeth gorau sydd gennym ac mae ein sefydliadau, ar ran eu haelodau, yn awyddus i gyfrannu at y broses.
- Mae ein sefydliadau yn cydnabod yr angen am ragoriaeth mewn gwaith ymchwil sylfaenol sy'n annibynnol ac eangfrydig ac a fydd, yn ei dro, yn creu sail i'r genhedlaeth nesaf o wyddoniaeth bioamrywiaeth gymhwysol.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llai o addysgu'n digwydd mewn pynciau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth yn ein hysgolion, a bod gostyngiad penodol yn y nifer o deithiau maes a hefyd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i blant, yn enwedig plant ifanc, i gael profiad uniongyrchol o fioamrywiaeth. Mae ein sefydliadau yn cadarnhau pwysigrwydd addysg a chyfarwyddyd ynglŷn â bioamrywiaeth os am sicrhau bod ein cyhoedd yn wybodus a bod gennym genhedlaeth newydd o wyddonwyr, rheolwyr a llunwyr polisïau ym maes bioamrywiaeth.

Ynglŷn â ni

Y Gymdeithas Ecolegol Brydeinig ('British Ecological Society' neu'r 'BES') yw cymdeithas ddysgedig y DU ar gyfer ecoleg. Sefydlwyd hi ym 1913; dyma'r gymdeithas ecolegol hynaf yn y byd ac mae'n cyhoeddi rhai o'r cyfnodolion mwyaf uchel eu bri yn ogystal â chynnal cyfarfodydd gwyddonol sy'n denu gwyddonwyr o bedwar ban byd. Mae ganddi 4,000 o aelodau sy'n cynnwys y mwyafrif o ecolegwyr mwyaf blaenllaw Prydain a rhai o wledydd eraill y byd. Mae gan y BES dîm gweithgar o bobl sy'n ymwneud â llunio polisïau ac maent yn ymdrechu i sicrhau bod gwaith polisi yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol dda.

British Ecological Society
Ebost: policy@britishecologicalsociety.org
Gwefan: www.britishecologicalsociety.org

Mae Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ('Institute of Ecology and Environmental Management' neu 'IEEM') yn gorff sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol ym mesydd ecoleg a rheolaeth amgylcheddol. Mae gan y Sefydliad oddeutu 4,000 o aelodau ar hyn o bryd ac mae'n cynnig nifer o wasanaethau er mwyn datblygu cymwyseddau a safonau mewn ecoleg a rheolaeth amgylcheddol. Un o amcanion IEEM yw hybu cadwraeth a gwelliannau yng nghyflwr bioamrywiaeth a helpu cynnal prosesau ecolegol a systemau cynnal bywyd sy'n hanfodol os am sicrhau bod y biosffer yn gweithredu'n iach.

Institute of Ecology and Environmental Management
Ebost: enquiries@ieem.net
Gwefan: www.ieem.net

Rydym yn ddiolchgar am gymorth a chefnogaeth ein partneriaid wrth ymgymryd â'r fenter hon:
Countdown 2010, Swyddfa Seneddol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Fforwm Cadwraeth Tiriogaethau Tramor y DU.

Mae'r BES ac IEEM yn aelodau o Rwydwaith Partneriaid y DU ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth 2010.

Delweddau: James Constant, Claire Hopkins, Andy Karran, Gavin Parsons, Jason Reeves, Scottish Natural Heritage, UK Overseas Territories Conservation Forum, www.wildstock.co.uk
© BES/IEEM Hydref 2009